# Diweddariadau i Ganllawiau Technegol yr ASB ar ofynion labelu a gwybodaeth mewn perthynas ag alergenau bwyd

Statws: Wedi dod i ben
Dyddiad lansio: 23 Ionawr 2020
Dyddiad cau: 6 Mawrth 2020

## Crynodeb o ymatebion

PDF
[Gweld Canllawiau Technegol: Gofynion labelu a gwybodaeth mewn perthynas ag alergenau bwyd (crynodeb o ymatebion yn Saesneg yn unig) as PDF(Open in a new window)] (268.25 KB)

## I bwy fydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb fwyaf?

- Busnesau Bwyd sy'n cynnig bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol (PPDS) (Gweler Atodiad B)
- Cyrff sy'n cynrychioli'r diwydiant bwyd
- Awdurdodau gorfodi
- Unrhyw sefydliad neu berson arall sydd eisiau gwybod mwy am newidiadau sydd ar y gweill i'r gofynion cyfreithiol ar gyfer darparu gwybodaeth am alergenau ar gyfer bwyd PPDS.

## Beth yw pwnc yr ymgynghoriad hwn?

Gosodwyd Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Diwygio) (Lloegr) 2019 (Offeryn Statudol 2019 Rhif 1218) gerbron y Senedd ar 5 Medi 2019. Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Hydref 2021 a byddant yn newid y ffordd y mae gofyn i fusnesau bwyd yn Lloegr ddarparu gwybodaeth am alergenau ar fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol (PPDS).

Mae deddfwriaeth gyfwerth ar wahân ar y gweill yng Nghymru ac yng Ngogledd Iwerddon. Pwnc yr ymgynghoriad hwn yw diweddariadau arfaethedig i Ganllawiau Technegol yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) ar labelu alergenau bwyd a gofynion gwybodaeth o dan Reoliad Gwybodaeth am Fwyd i Ddefnyddwyr yr UE Rhif 1169/2011 ("Canllawiau Technegol yr ASB").

Mae'r diweddariadau hyn yn bennaf i adlewyrchu'r gofynion cyfreithiol newydd hyn, ond rydym ni hefyd yn achub ar y cyfle hwn i gynnig rhai diweddariadau technegol/drafftio. Bydd y diweddariadau i'r canllawiau yn berthnasol yn Lloegr a disgwylir iddynt fod yn berthnasol yng Nghymru ac yng Ngogledd Iwerddon. Byddai'r ASB felly'n croesawu barn a sylwadau rhanddeiliaid yng Nghymru, yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon.

## Beth yw diben yr ymgynghoriad hwn?

Ceisio barn a sylwadau rhanddeiliaid yng Nghymru, yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon ar ddiweddariadau arfaethedig i'r Canllawiau Technegol.

## Pecyn ymgynghori

### England, Northern Ireland, Scotland and Wales

PDF
Gweld Ymgynghoriad canllawiau technegol ar labelu alergenau as PDF(Open in a new window)
(524.31 KB)

### England, Northern Ireland, Scotland and Wales

WORD
Gweld Canllawiau technegol ar labelu alergenau - Ymgynghoriad drafft (Saesneg yn unig) as Word(Open in a new window) (812.74 KB)

## Sylwadau a barn

Anfonwch unrhyw sylwadau a safbwyntiau at:

Duncan Harris
Tîm Datblygu Rheoleiddio a Chefnogaeth Broffesiynol, y Gyfarwyddiaeth Polisi Bwyd

Llawr 6
Clive House,
70 Petty France,
Westminster,
Llundain,
SW1H 9EX.
E-bost: duncan.harris@food.gov.uk
Ffôn: 020 7276 8334

## Cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion

Y bwriad yw cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion ar y dudalen hon o fewn tri mis i ddiwedd yr ymgynghoriad. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am sut yr ydym yn trin data a ddarperir mewn ymateb i ymgynghoriadau yn ein hysbysiad preifatrwydd am ymgynghoriadau.

## Mwy o wybodaeth

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag egwyddorion ymgynghori llywodraeth y DU. Os oes Asesiad Effaith wedi'i lunio, bydd wedi'i gynnwys yn y dogfennau ymgynghori. Os na ddarparwyd Asesiad Effaith, nodir y rheswm dros hynny y ddogfen ymgynghori.